Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 17 Chwefror 2014**

Amser:
**14:30**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:


**Gareth Williams**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk


## Agenda

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprfwyon a datganiadau o fuddiant

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalen 1)

**CLA(4)-06-14 - Papur 1** – Offerynnau Statudol sydd ag adriddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**CLA358 - Gorchymyn Tiroedd Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 4 Chwefror 2014; Fe'i gosodwyd ar: 6 Chwefror 2014; Yn dod i rym ar: 1 Mawrth 2014

## 3 Papurau i'w nodi (Tudalennau 2 - 8)

Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cyhoeddi dogfen ymgynghori ar yr offerynnau statudol drafft a gaiff eu gwneud o dan y Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.
**CLA(4)06-14 - Papur 2**

Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y Bil Dadreoleiddio.
**CLA(4)-06-14 - Papur 3**

Datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog:  Ymateb i'r bleidlais ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar ddarpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona.
**CLA(4)-06-14 – Papur 4**

## 4  Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(vi) lle mae'r Pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

**Ystyried yr adroddiad terfynol ynghylch yr ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE**  (Tudalennau 9 - 35)
**CLA(4)-06-14 – Papur 5** – Adroddiad Drafft

**Bil Drafft Cymru: Papur briffio ychwanegol**  (Tudalennau 36 - 41)
**CLA(4)-06-14 – Papur 6** – Papur briffio ychwanegol

**Ymchwiliad i ddeddfu yn y Pedwerydd Cynulliad**  (Tudalennau 42 - 58)
**CLA(4)-06-14** – **Papur 7** Y dull o weithio ar yr ymchwiliad i ddeddfu yn y Pedwerydd Cynulliad
**CLA(4)-06-14** – **Papur 7** Atodiad 1; y Papur Cwmpasu Gwreiddiol
**CLA(4)-06-14** – **Papur 7** Atodiad 2; y Cylch Gorchwyl
**CLA(4)-06-14** – **Papur 7** Atodiad 3; Ymgyngoreion
**CLA(4)-06-14** – **Papur 7** Atodiad 4; Cwestiynau'r ymgynghoriad
**CLA(4)-06-14** – **Papur 7** Atodiad 5; Cynghorydd Arbenigol

**Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru**  (Tudalennau 59 - 75)

**CLA(4)-06-14** – **Papur 8** Y dull o weithio ar yr ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru
**CLA(4)-06-14** – **Papur 8**  Atodiad 1; Llythyr gan y Prif Weinidog
**CLA(4)-06-14** – **Papur 8**  Atodiad 2; Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010
**CLA(4)-06-14** – **Papur 8** Atodiad 3; Ymgyngoreion
**CLA(4)-06-14** – **Paper 8**  Atodiad 4; Darn o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
**CLA(4)-06-14** – **Papur 8** Atodiad 5; Cwestiynau a awgrymwyd ar gyfer yr ymgynghoriad

**Blaenraglen waith**  (Tudalennau 76 - 78)

**CLA(4)-06-14** – **Papur 9** Y Flaenraglen Waith

**Papur i'w nodi** (Tudalennau 79 - 82)
Gwahoddiad i'r Cadeirydd fynd i'r Seminar *'Comisiynwyr ac Ombwdsmyn a Seilwaith Llywodraethu Cymru:*'

**CLA(4)-06-14 – Papur 10**

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Offerynnau Statudol Gydag Adroddiadau Clir

## 17 Chwefror 2014

**CLA358 - Gorchymyn Tiroedd Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae adran 9 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 yn gwahardd, yn ddarostyngedig i eithriadau, hollti hawl comin oddi wrth y tir y mae'r hawl honno'n gysylltiedig ag ef.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn caniatáu hollti dros dro hawl comin i bori anifeiliaid oddi wrth y tir y mae'r hawl honno'n gysylltiedig ag ef drwy alluogi lesio neu drwyddedu'r hawl i drydydd parti am ddim mwy na phum mlynedd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyhoeddi dogfen ymgynghori am yr offerynnau statudol drafft sydd i'w gwneud o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013** |
| **DYDDIAD** | **10 Chwefror 2014** |
| **GAN** | **Carl Sargeant AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio** |

Hoffwn hysbysu'r Aelodau bod dogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi heddiw ar wefan Llywodraeth Cymru yn gofyn i bobl fynegi barn am 3 set o reoliadau drafft sy'n cael eu gwneud o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Rwyf am gasglu ynghyd safbwyntiau'r bobl hynny a fydd yn defnyddio'r gweithdrefnau newydd a nodir yn y rheoliadau, er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau hynny mor glir ac effeithiol ag y bo modd, a'u bod yn hawdd eu defnyddio. Un o'r amcanion eraill yw helpu i godi ymwybyddiaeth am y newidiadau sydd ar droed.

Rwyf yn awyddus i glywed safbwyntiau rhanddeiliaid, a byddaf yn ystyried y safbwyntiau hynny'n ofalus wrth fynd ati i ddiweddaru'r rheoliadau.

Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion hyn yn para 12 wythnos, tan 6 Mai 2014. Manylir yn y ddogfen ymgynghori ei hun ar sut i ymateb.

http://wales.gov.uk/consultations/housing-and-regeneration/mobile-homes/?skip=1&lang=cy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Y Bil Dadreoleiddio**

**DYDDIAD** **11 Chwefror 2014**

**GAN** **Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

Cafodd y Bil Dadreoleiddio ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Ionawr 2014. Fe'i cyhoeddwyd yn wreiddiol ar ffurf ddrafft ar 1 Gorffennaf 2013 at ddiben craffu arno cyn y broses ddeddfu.

Caiff y datganiad ysgrifenedig hwn ei osod o dan Reol Sefydlog 30 - Hysbysu mewn perthynas â Biliau Senedd y DU. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â darpariaeth yn y Bil a fydd yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond nad oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar ei chyfer o dan Reol Sefydlog 29.

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi mai ei hamcanion polisi yw lleihau baich rheoleiddio gormodol neu ddiangen ar fusnesau, cymdeithas sifil, cyrff cyhoeddus, trethdalwyr neu unigolion, gan felly hwyluso twf.

Mae'r Bil yn eang ei gwmpas ac mae'n cynnwys nifer o ddarpariaethau yn ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli yng Nghymru, un ai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu'n gysylltiedig â swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â darpariaeth yn Atodlen 16, Rhan 2, paragraff 17 o'r Bil sy'n diddymu adran 101A(5) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Mae Adran 101A yn cynnwys darpariaeth am y ddyletswydd ar ymgymerwyr carthffosiaeth i ddarparu carthffos gyhoeddus at ddibenion carthffosiaeth ddomestig lle y caiff yr amodau a ragnodir gan adran 101A (2) eu bodloni. Mae gan rai cartrefi yng Nghymru a Lloegr systemau preifat ar gyfer trin carthffosiaeth nad ydynt wedi'u cysylltu â charthffos gyhoeddus. Gall perchenogion neu feddianwyr cartrefi sydd â systemau preifat ar gyfer trin carthffosiaeth nad ydynt wedi'u cysylltu â charthffos gyhoeddus gyflwyno cais i'r ymgymerwr carthffosiaeth

trwyddedig ar gyfer yr ardal i gysylltu'r system â charthffos gyhoeddus o dan yr amodau a ragnodir gan adran 101A o'r Ddeddf.

Mae'n rhaid i'r ymgymerwr asesu'r sefyllfa a phenderfynu a oes dyletswydd arno i ddarparu carthffos gyhoeddus.  Yng Nghymru, mae'n rhaid i'r ymgymerwr ystyried unrhyw ganllawiau sydd wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru wrth wneud unrhyw benderfyniad.

Trwy ddiddymu adran 101A (5) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, bydd y Bil yn gwaredu'r gofyniad statudol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Corff Adnoddau Naturiol, OfWAT, (rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr); neu unrhyw gyrff neu bersonau eraill priodol, cyn cyhoeddi canllawiau ynghylch darparu carthffos gyhoeddus o dan adran 101A o'r Ddeddf honno. Mae'n gwaredu gofyniad tebyg ar Lywodraeth y DU mewn perthynas â Lloegr.

Cred Llywodraeth Cymru ei bod hi'n briodol fod y ddarpariaeth yn berthnasol i Gymru. Nid yw'r ddyletswydd i ymgynghori'n ofynnol gan fod gan Lywodraeth Cymru bolisïau a systemau sefydlog sy'n mynd gam ymhellach na'r gofynion a gaiff eu diddymu yn Neddf y Diwydiant Dŵr.  Mae ein polisïau a'n systemau yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyrff a gaiff eu henwi yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991, wrth ddatblygu polisïau newydd a chaiff y rhain eu dilyn wrth i ganllawiau perthnasol gael eu datblygu a'u llunio. Mewn gwirionedd, mae'r broses hon o ymgysylltu yn broses fwy helaeth na'r hyn a nodir yn adran 101A(5) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 o safbwynt ymgynghori.   O'r herwydd mae'r ddarpariaeth hon yn y Bil Dadreoleiddio yn gwaredu gofyniad deddfwriaethol diangen na fydd yn cael effaith andwyol ar unrhyw bartïon perthnasol yng Nghymru.

Bernir ei bod hi'n briodol i'r ddarpariaeth hon gael ei chyflwyno drwy'r Bil Dadreoleiddio, gan na fyddai'n bosibl cyflwyno'r ddarpariaeth drwy Ddeddf Cynulliad.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TITLE** | **Ymateb i bleidlais Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar ddarpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona** |
| **DYDDIAD** | **11 Chwefror 2014** |
| **GAN** | **Carwyn Jones, AC, Prif Weinidog Cymru** |

Ar 7 Hydref, cyflwynodd y Swyddfa Gartref welliant i'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona, i ddisodli un o'r eithriadau presennol i gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gydag eithriad newydd.

Yr eithriad dan sylw yw'r eithriad sy'n ymwneud â 'Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol' (ASBOs), a restrir dan baragraff 12 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddai gwelliant y Swyddfa Gartref, a gafodd ei dderbyn yn ystod cam Adroddiadau Tŷ'r Cyffredin, yn disodli hwn â'r eithriad canlynol: "Orders to protect people from behaviour that causes or is likely to cause harassment, alarm or distress".

Gosodwyd memorandwm a chynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y mater hwn gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Pan gafwyd dadl ar y mater ar 26 Tachwedd roedd consensws trawsbleidiol yn y Cynulliad na ddylid cytuno i welliant Llywodraeth y DU o ran yr eithriad sy'n ymwneud â'r ASBOs.

O ganlyniad i'r bleidlais, ysgrifennodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth at Norman Baker AS, y Gweinidog Atal Troseddu yn y Swyddfa Gartref, i ofyn i Lywodraeth y DU gael gwared ar y ddarpariaeth berthnasol o'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona. Pwysleisiodd y byddem yn barod i dderbyn gwelliant sy'n cynnal y status quo, tra'r ydym yn aros am ganlyniad Silk Rhan 2, ond na allem dderbyn lleihau'r cymhwysedd deddfwriaethol, a gynrychiolir gan welliant Llywodraeth y DU.

Rwyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn egluro ein pryderon ynghylch y gwelliant hwn, a'i effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cadarnhaodd ef na fydd Llywodraeth y DU yn newid ei safbwynt, ac na fyddant yn gwneud gwelliant pellach i'r Bil. Felly, bydd yr eithriad disodli gan Lywodraeth y DU yn dod i rym pan fydd y ddarpariaeth berthnasol yn y Bil yn cychwyn. Yn ôl y Bil, bydd y ddarpariaeth yn

cychwyn drwy orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Rwy’n siomedig fod Llywodraeth y DU wedi bwrw ymlaen â’r eithriad disodli fel y’i drafftiwyd, er gwaethaf gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru a’r consensws trawsbleidiol yn y Cynulliad y dylid gwrthod yr eithriad disodli. Fe wnaethom roi nifer o enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gallai’r eithriad disodli arwain at ddiffyg eglurder o ran cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac o bosibl gallai gyfyngu ar y cymhwysedd hwnnw. Rwy’n ystyried y dylid cynnal trafodaeth lawn ar unrhyw welliant i gynnwys Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chytuno ar hynny â Llywodraeth Cymru a’r Cynulliad, oherwydd ei arwyddocâd i’n setliad datganoli.

Er bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod gwneud unrhyw welliant i’r Bil mewn ymateb i’r Cynulliad yn gwrthod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, mae Gweinidog Atal Troseddu Llywodraeth y DU wedi gwneud datganiad ysgrifenedig yn Nhŷ’r Cyffredin ac mae Is-ysgrifennydd Gwladol dros Wybodaeth Droseddol wedi gwneud datganiad ysgrifenedig yn Nhŷ’r Arglwyddi i egluro beth yn eu tyb nhw yw effaith y gwelliant i’r eithriad ASBO.

Gall y datganiad helpu i liniaru’r risg o ddeddfwriaeth y Cynulliad, mewn rhai meysydd datganoledig, yn y dyfodol yn dod o fewn yr eithriad diwygiedig (er enghraifft, gorchmynion sy’n amddiffyn unigolion sy’n agored i niwed mewn lleoliadau gofal rhag ymddygiad gan drydydd parti sy’n achosi trallod.) Ond byddai’n well o lawer cael eglurder ynghylch hynny ar wyneb y Bil. At hynny, nid yw’r datganiad yn ymdrin â’n pryder ni ynghylch effaith bosibl yr eithriad ar gymhwysedd y Cynulliad mewn meysydd datganoledig eraill, lle y credwn ni y gall y Cynulliad ddeddfu ar hyn o bryd i ymdrin ag ymddygiad sy’n achosi aflonyddwch, braw neu drallod (megis tai neu’r gwasanaeth iechyd). Rwy’n ailddatgan y dylai’r Cynulliad gytuno ar unrhyw welliannau i Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru, a dylai eu heffaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fod yn eglur - nid yw hynny’n wir yma.

Yn y tymor hirach, barn Llywodraeth Cymru yw na ddylai fod eithriad “ymddygiad gwrthgymdeithasol” o gwbl, fel yr eglurwyd yn ein tystiolaeth i Gomisiwn Silk. Os bydd symudiad yn y dyfodol tuag at fodel o bwerau a gedwir yn ôl ar gyfer datganoli yng Nghymru, fel yr ydym wedi’i gefnogi, ni ddylid cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y rhestr o faterion a gedwir yn ôl.

## HOME OFFICE

### Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill

**The Minister of State for Crime Prevention (Norman Baker):** Currently Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 includes an exception to the National Assembly's competence in relation to 'anti-social behaviour orders'. As a result, an amendment to Schedule 7 to that Act is necessary to ensure the exception's continuing operation following the reforms made in this Bill.

In line with the devolution settlement, this amendment should have the same scope as the current exception. Criminal justice is not devolved to the Assembly but the exception is necessary to make clear that in legislating about social welfare or any other transferred subject, the Assembly does not have the competence to make provision for orders equivalent to those first created by the Crime and Disorder Act 1998. As this Bill abolishes these orders and repeals the relevant sections of the 1998 Act (amongst other things) an amendment to the exception was also necessary as a consequence. The amendment maintains the existing scope by relating only to orders that deal with the kinds of behaviour that could have been restricted under the existing regime and which we would reasonably regard as part of the criminal justice system.

In the Government's evidence to the Silk Commission in March this year, we highlighted that there was some confusion as to how the current exception should be interpreted. Since submitting that evidence, we have concluded that the exception should be interpreted narrowly, to mean the subject matter of orders under the Crime and Disorder Act 1998. The amendment is designed to reflect that conclusion.

## HOME OFFICE

### Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill

**Lord Taylor of Holbeach:** My hon Friend the Minister of State for Crime Prevention (Norman Baker) has today made the following Written Ministerial Statement:

Currently Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 includes an exception to the National Assembly's competence in relation to 'anti-social behaviour orders'. As a result, an amendment to Schedule 7 to that Act is necessary to ensure the exception's continuing operation following the reforms made in this Bill.

In line with the devolution settlement, this amendment should have the same scope as the current exception. Criminal justice is not devolved to the Assembly but the exception is necessary to make clear that in legislating about social welfare or any other transferred subject, the Assembly does not have the competence to make provision for orders equivalent to those first created by the Crime and Disorder Act 1998. As this Bill abolishes these orders and repeals the relevant sections of the 1998 Act (amongst other things) an amendment to the exception was also necessary as a consequence. The amendment maintains the existing scope by relating only to orders that deal with the kinds of behaviour that could have been restricted under the existing regime and which we would reasonably regard as part of the criminal justice system.

In the Government's evidence to the Silk Commission in March this year, we highlighted that there was some confusion as to how the current exception should be interpreted. Since submitting that evidence, we have concluded that the exception should be interpreted narrowly, to mean the subject matter of orders under the Crime and Disorder Act 1998. The amendment is designed to reflect that conclusion.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon